
# MANIFFESTO

## Maniffesto'r Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer Etholiadau Lleol 3ydd Mai 2012









Ceidwadwyr Cymreig | Welsh Conservatives


# CYNNWYS

| | |
|---|---|
| RHAGAIR GAN Y CEIDWADWYR CYMREIG | 2 |
| RHEWI TRETH Y CYNGOR | 3 |
| RHAGOR O ARIAN AR GYFER EIN HYSGOLION | 4 |
| CAEL GWARED AR ARDRETHI BUSNES AR GYFER BUSNESAU BYCHAIN | 5 |
| AMDDIFFYN EICH YSBYTY LLEOL | 6 |
| STRYDOEDD MWY DIOGEL, CYMUNEDAU GLANACH | 7 |
| PŴER CYNLLUNIO I BOBL LEOL | 8 |
| TRYLOYWDER AC ATEBOLRWYDD | 9 |

***Am ragor o wybodaeth am y polisïau yn y manifffesto hwn, cysylltwch â ni:***

Y BLAID GEIDWADOL GYMREIG, LLAWR GWAELOD, TŶ RHYMNI, 1-2 COPSE WALK, PARC BUSNES PORTH CAERDYDD, CAERDYDD, CF23 8RB
029 2073 6562
INFO@WELSHCONSERVATIVES.COM
WWW.WELSHCONSERVATIVES.COM

# RHAGAIR GAN EICH CEIDWADWYR CYMREIG



Annwyl Breswylydd,

Rydyn ni i gyd eisiau'r gorau i'n teuluoedd ac i'n cymunedau. Ond ar ôl 13 mlynedd o reolaeth gan y Blaid Lafur yn y Cynulliad, mae Cymru'n disgyn ymhellach yn ôl.

Mae safonau mewn addysg a gofal iechyd yn gwaethygu, ac mae Llafur yn gwrthod cydweithredu'n iawn gyda Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr i wella'r economi.

Tra bod gweledigaeth Llafur ar gyfer Cymru'n ddihyder ac yn ddi-fflach, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y gallwn ni wneud gymaint yn well. Er mwyn gwneud hyn, fe fydd yn rhaid i ni newid y ffordd mae llywodraeth yn gweithio yng Nghymru.

Fe fyddwn ni'n sicrhau fod llywodraeth yn gweithio i chi. Fe fyddwn ni'n sicrhau fod addewid datganoli'n cyflawni – trwy roi'r pŵer yn ôl yn nwylo pobl a chymunedau.

Yn ystod yr etholiadau lleol, mae gan y Ceidwadwyr Cymreig weledigaeth glir o sut y gallwn ni gyflawni hyn.

- Fe fyddwn ni'n rhewi treth y cyngor, gan gadw biliau'n isel ac arian yn eich pocedi chi.
- Fe fyddwn ni'n diwygio'r system gynllunio, fel y bydd trigolion lleol yn penderfynu sut mae eu cymunedau'n ffurfio.
- Fe fyddwn ni'n gwneud y cynghorau'n fwy tryloyw, fel y bydd pobl yn gweld ble mae eu harian yn cael ei wario.
- Fe fyddwn ni'n cael gwared ar gyfraddau busnes ar gyfer busnesau bychain er mwyn i fusnesau allu buddsoddi'u helw i greu rhagor o swyddi.
- Fe fyddwn ni'n diwygio'r ffordd mae ysgolion yn cael eu hariannu, er mwyn rhoi rheolaeth i'r athrawon.
- Ac fe fyddwn ni'n gadael i'r meddygon a'r nyrsiau reoli ysbytai lleol a gofal rheng flaen.

Ar ôl 13 mlynedd o Lafur yn dweud wrthoch chi beth i'w wneud, mae'n amser i chi gael lleisio'ch barn.

Ar 3ydd Mai, chi fydd yn penderfynu. Fe fydd pleidleisio dros y Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau fod gennych chi fwy o ddylanwad dros y penderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywydau chi. Dim ond trwy roi'r pŵer i'r arweinwyr busnes, athrawon, meddygon a thrigolion lleol i wneud penderfyniadau lleol y gallwn ni wella'r ffordd mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.

Peidiwch â gadael i Lafur wneud i'ch cymuned leol yr un peth ag y gwnaethon nhw i Brydain.

Ar 3ydd Mai, pleidleisiwch dros y Ceidwadwyr Cymreig.

**GWIR ANRHYDEDDUS CHERYL GILLAN AS**
**YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

**ANDREW RT DAVIES AC**
**ARWEINYDD YR WRTHBLAID SWYDDOGOL YN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**



# RHEWI TRETH Y CYNGOR

Mae treth y cyngor wedi mwy na dyblu dan Lafur er 1997. Yn Lloegr, mae'r cynghorau wedi cael y cyfle i rewi treth y cyngor am ddwy flynedd yn olynol. Yn Yr Alban, mae'n bum mlynedd! Ond yng Nghymru, mae Llafur yn gwrthod gwneud yr un peth, gan yrru biliau i fyny ledled y wlad. Fe fyddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn rhewi treth y cyngor ar draws Cymru, gan leihau'r baich ar gartrefi a theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd.



# RHAGOR O ARIAN AR GYFER EIN HYSGOLION

**O dan Lafur, mae £604 llai yn cael ei wario ar bob disgybl yn flynyddol nac yn Lloegr, mae canlyniadau'r arholiadau yn is – ac mae'r bwlch yn ehangu! Rydyn ni'n credu mai'r penaethiaid, yr athrawon, y llywodraethwyr a'r rhieni sy'n gwybod orau – ac nid y biwrocratiaid! Dyna pam y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ariannu'r ysgolion yn uniongyrchol, gan dorri gweinyddu a biwrocratiaeth gan sicrhau fod adnoddau'n cyrraedd y rheng flaen.**



# CAEL GWARED AR ARDRETHI BUSNES AR GYFER BUSNESAU BYCHAIN

**Rydym ni wedi ein hymrwymo tuag at gael gwared ar ardrethi busnes ar gyfer busnesau bychain. Fe fydd hyn yn caniatáu i gwmnïoedd ehangu ac i gymryd staff newydd ymlaen gan stimiwleiddio'r economïau lleol. Er mwyn rhoi hwb pellach i'r economi, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi'u hymrwymo tuag at gyflwyno parthau mentergarwch yng Nghymru, tuag at gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer pobl heb waith a thuag at rewi'r tollau ar Bont Hafren.**




# AMDDIFFYN EICH YSBYTY LLEOL

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn gwasanaethau iechyd lleol ar gyfer pobl leol. Ni ddylai cleifion orfod teithio ymhellach ar gyfer gofal i arbed eu bywydau. Rydym yn gwrthwynebu cynlluniau i israddio ysbytai ac yn gwrthod unrhyw argymhellion i dorri adrannau Damwain ac Argyfwng a gwasanaethau mamolaeth. Ni yw'r unig blaid yng Nghymru sy wedi galw am i'r gyllideb iechyd dderbyn buddsoddiad ychwanegol. Mae Llafur yn torri GIG Cymru gan £534 miliwn.  O dan eu harweinyddiaeth nhw, mae un ym mhob wyth o bobl Cymru ar restr aros y GIG.



# STRYDOEDD MWY DIOGEL, CYMUNEDAU GLANACH

Fe fyddwn ni'n gweithredu ymateb lym i droseddau amgylcheddol ac rydym yn benderfynol o atal sbwriel rhag cael ei daflu, tipio anghyfreithlon, a baw ci yn ein cymunedau lleol. Fe fydd y Ceidwadwyr Cymreig yn blaenoriaethu trwsio'n ffyrdd a'n pafinoedd; gan dorri cost cynyddol ceisiadau am anafiadau yn erbyn awdurdodau lleol Cymru.



# PŴER CYNLLUNIO AR GYFER POBL LEOL

Mae'n rhaid atal datblygiadau anaddas ar orlifdiroedd ac yn ein cefn gwlad.  Mae bachu gerddi (garden grabbing) yn dod yn broblem gyffredin, tra bod dwylo'r pwyllgorau cynllunio lleol yn rhy aml o lawer wedi'u clymu gan arweiniad gormodol o Lywodraeth Lafur Cymru.  Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mai pobl leol ddylai fod â'r grym i effeithio ar bolisi cynllunio ac i'w ddatblygu; felly fe fyddwn ni'n sicrhau fod y system yn ymateb i anghenion lleol a'i bod yn hyblyg.




# TRYLOYWDER AC ATEBOLRWYDD

**Mae'ch cyngor lleol yna i CHI – mae'n rhaid iddo fod yn agored, yn dryloyw ac yn hollol atebol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am i'r awdurdodau lleol gyhoeddi manylion pob gwariant dros £500. Fe fyddwn ni'n gostwng cyflogau enfawr rhai o'r uwch reolaeth a'r prif weithredwyr – ac yn eu lle, buddsoddi'r arian hwnnw yn y gwasanaethau rheng flaen angenrheidiol.**